


# Ysgol Santes Helen:

# Adroddiad Blynyddol y Llywodraethwyr 2026

# Governors' Annual Report 2026

YSGOL SANTES HELEN
CÂR DY GYMYDOG

# Llywodraethwyr | *Governors*



Cyflwynir yr adroddiad hwn, sy'n grynodeb o sut y cyflawnwyd eu swyddogaeth, gan y Llywodraethwyr i'r rhieni.
*This report, which is a summary of steps taken by the Governors in executing their duties, is presented to parents.*

| **Y CORFF LLYWODRAETHOL / *THE GOVERNING BODY*** | **DYDDIAD APWYNTIO / *APPOINTED*** | **CYFNOD YN DOD I BEN / *END OF TERM*** |
|---|---|---|
| **Rhiant Lywodraethwyr / *Parent Governor*:** Mae'r rhain yn cael eu hethol drwy bleidlais y rhieni ac yn gwasanaethu am dymor o 4 blynedd. *Chosen through a vote by parents. a 4 yearly term.*<br><br>Julie Horan | 31/3/22 | 2026 |
| **Llywodraethwyr A.A.Ll. Gwynedd *Gwynedd LA Governor P:***<br>enodir y rhain gan yr Awdurdod Addysg Lleol.<br>*Appointed by the Local Education Authority*<br><br>Mrs Sian Foster | 2022 | 2026 |
| **Llywodraethwyr Cyfetholedig:** Gwahoddir hwy i ymuno â'r Corff Llywodraethol gan yr aelodau eraill fel arfer am eu gwaith yn y gymuned. | | |
| **Llywodraethwr Cyngor Tref/ Cymuned *Town council/ Community Governor* :**<br>Penodiad Cyngor Tref/Cymuned<br>*Appointed by the town/ community council*<br><br>Mrs Maria Sarnacki | 2022 | 2026 |

| Y CORFF LLYWODRAETHOL / *THE GOVERNING BODY* | DYDDIAD APWYNTIO / *APPOINTED* | CYFNOD YN DOD I BEN / *END OF TERM* |
|---|---|---|
| **Aelodau Sylfaenol : Etholir i gynrychioli'r Eglwys**<br>***Foundation Governors- Elected to represent the church.***<br><br>Mr Antonio Dos Remedios<br>Mrs Julie Andrews<br>Mrs Klaudia Jugas<br>Mr Patrick.Coyne* | <br><br><br>31-08-21<br>31-08-21<br>14-7-22<br>29-9-22 | <br><br><br>31-08-25<br>31-08-25<br>31-8-25<br>31-8-25 |
| **Athro Lywodraethwr:** ***Teacher Governor***<br>Etholir o blith yr athrawon gan yr athrawon.<br>*Appointed from the teaching staff.*<br><br>Miss Sian Jones | 31-08-20 | 31-08-24 |
| **Llywodraethwr Staff Ategol yr ysgol** ***Auxillary staff Governor*****:**<br>Etholir o blith staff ategol yr ysgol gan y staff ategol. *Elected from the supplementary staff.*<br><br>Miss Sharon Thomas | 21-6-22 | 21-6-26 |
| **Y Pennaeth /** ***The Headteacher:***<br><br>Mrs Eirian Bradley Roberts | | |
| **Clerc y Llywodraethwyr** ***Clerk to the Governors***<br><br>Mrs Brenda Parry.<br><br>Gellir cysylltu gyda Chadeirydd trwy Glerc y Llywodraethwyr drwy'r Pennaeth.<br>*You can contact the Chairman of the Governors through the Clerk.* | | |

# Staff



**( i ) Staff Dysgu / *Teaching Staff***

Miss Sian Lloyd Jones
Mrs Eirian Bradley-Roberts

( **ii ) Cymhorthyddion Dosbarth / *Classroom Assistants***

Mrs Julie Horan
Mrs Sharon Thomas

( **iii ) Cymhorthydd Gweinyddol / *Administrative Assistant***

Mrs Brenda Parry

( **iv ) Athrawes Gerdd Deithiol / *Peripatetic Music Teacher***

Gabriel Tranmer
Neil Williams

( **v ) Staff Ategol / *Ancilliary Staff***

| | |
|---|---|
| Mrs Jillian Jones | Gofalwraig / Glanhawraig - *Caretaker / Cleaner* |
| Mrs Ann Roberts | Glanhawraig Cynorthwyol.-*Assistant Cleaner/* |
| Mrs Jillian Jones | Cogyddes / *Cook* |
| Mrs Stephanie Mcgeever | Cymhorthydd Cegin / *Kitchen Assistant* |
| Miss Heather Hughes * | Goruchwylwraig Canol Dydd / *Lunchtime supervisor* |
| Mrs Brenda Parry | Goruchwylwraig Canol Dydd / *Lunchtime supervisor* |

Dymuna’r llywodraethwyr ddiolch i holl staff yr ysgol am eu gwaith caled yn ystod y flwyddyn.

*The governors wish to thank all the school staff their hard work during the year.*

# Oriau dysgu | *Teaching hours*

| **Adran / *Class*** | **Bore / *Morning*** | **Prynhawn / *Afternoon*** |
|---|---|---|
| Meithrin / *Nursery* | 9.00-12.00 | |
| Cyfnod Sylfaen / *Foundation phase* | 9.00-12.00 | 1.00-3.00 |
| Iau / *Juniors* | 9.00-11.00 | 1.00-3.30 |

# Y cyfarfod diwethaf | *The last meeting*

**Nid oedd cyfarfod / *There was no meeting***

# Cyfarfodydd blynyddol | *Annual meetings*



Fe fydd cyfarfod yn cael ei drefnu yn ôl galw'r rhieni:

Mae Adran 94 y Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 (y Ddeddf) yn gwneud newidiadau pwysig i'r trefniadau deddfwriaethol blaenorol oedd yn ymwneud â Chyfarfodydd Blynyddol y Rhieni/Llywodraethwyr. Mae'n darparu trefniadau newydd lle gall rhieni ofyn am gyfarfod gyda chorff llywodraethol.

Bydd angen i'r rhieni fodloni pedwar gofyniad statudol wrth alw cyfarfod sef:

- rhaid i rieni 10% o'r disgyblion cofrestredig, neu rieni 30 o'r disgyblion cofrestredig (pa un bynnag sydd isaf) arwyddo deiseb yn gofyn am gyfarfod;
- rhaid mai diben y cyfarfod yw trafod materion sy'n ymwneud â'r ysgol;
- y nifer fwyaf o gyfarfodydd y gall rhieni ofyn amdanynt o fewn unrhyw flwyddyn ysgol yw tri (3);
- rhaid bod yna ddigon o ddiwrnodau ysgol ar ôl yn y flwyddyn ysgol i ganiatáu cyfarfod.

At hynny:

- rhaid cynnal y cyfarfodydd cyn diwedd cyfnod o 25 niwrnod; mae'r cyfnod o 25 niwrnod yn cychwyn y diwrnod ar ôl derbyn y ddeiseb, ond nid yw'n cynnwys unrhyw ddiwrnod nad yw'n ddiwrnod ysgol;
- os oes angen cynnal cyfarfod arall o ganlyniad i ddeiseb wahanol, ni fydd y cyfnod o 25 niwrnod yn dechrau tan y diwrnod ar ôl cynnal y cyfarfod arall;
- rhaid bod digon o ddyddiau ar ôl yn y flwyddyn ysgol i gynnal cyfarfod cyn diwedd y cyfnod o 25 niwrnod;
- bydd cyfarfodydd yn agored i holl rieni'r disgyblion cofrestredig yn yr ysgol, y Pennaeth ac unrhyw un arall a wahoddir gan y corff llywodraethol;
- mae'n rhaid i hysbysiad y cyfarfodydd i'r rhieni gynnwys dyddiad, amser a lleoliad y cyfarfod ynghyd â'r mater neu faterion i'w trafod.

*A meeting will be arranged if required by parents.*

*Section 94 School Standards and Organisation (Wales) Act 2013 (the Act) makes important changes to the previous legislative arrangements in respect of the Annual Parent/Governor Meetings. It provides new arrangements whereby parents can request a meeting with a governing body.*

*However, the parents will need to satisfy the four (4) statutory requirements when calling a meeting which are as follows:*

- *that the parents of 10% of registered pupils, or the parents or 30 registered pupils (whichever is the lower) must sign a petition requesting a meeting;*
- *the meeting must be for the purpose of discussing matters relating to the school;*
- *the maximum number of meetings that parents can request in any school year is three (3);*
- *there must be sufficient school days left in the school year to allow a meeting to be held.*

*Further:*

- *meetings must be held before the end of a 25 day period;*
- *the 25 day period commences the day after receipt of the petition but does not include any day which is not a school day;*
- *if another meeting is required to be held as a result of a different petition the 25 day period will not commence until the day after the other meeting has been held;*
- *there must be sufficient days left in the school year to allow a meeting to be held before the end of the 25 day period;*
- *meetings will be open to all parents of registered pupils at the school, Head and any other person invited by the governing body;*
- *notification of meetings to parents must include the date, time and venue of the meeting and the matter or matters to be discussed.*

## Gweithrediad ar ôl penderfyniadau'r cyfarfod blaenorol
## *Action as a result of any resolutions passed at the last meeting*

Nid oedd materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.
*There were no matters arising from the last meeting.*

# Cyfarfod y flwyddyn | *This year's meeting* 2024 - 2025

Cafwyd cefnogaeth dda i gyfarfodydd y llywodraethwyr yn ystod y flwyddyn ac fe gynhaliwyd cyfarfodydd llawn o'r Llywodraethwyr ar y dyddiadau canlynol. Cynhaliwyd dau gyfarfod wyneb yn wyneb tra bod eraill ar Teams.
T*he school governor's meetings were well attended during the year and full meetings were held on the following dates. Two meetings were held face to face whilst others were on Teams.*

25/9/24 Trafodwyd y canlynol - Ail benodwyd Mr Antonio Dos Remedios yn Gadeirydd a Maria Sarnacki yn Is-Gadeirydd. Penderfynwyd, oherwydd absenoldebau ar y bwrdd Llywodraethwyr ar noson y cyfarfod, y byddai'n well disgwyl tan y Cyfarfod nesaf i ethol is bwyllgorau.

25/9/24 *The following was discussed - Mr Antonio Dos Remedios was reappointed as Chairman and Maria Sarnacki as Vice Chairman. It was decided due to absences on the board of Governors on the night of the meeting that it would be better to wait until the next Meeting to elect sub-committees.*

12/12/24 Penodwyd aelodau i'r is bwyllgorau. Trafodwyd hefyd addasiadau i gynlluniau ar gyfer y toiledau ar gyfer y Cylch Meithrin newydd. Trafodwyd yr anawsterau yn dilyn ymadawiad 3 aelod o staff ar ddiwedd tymor yr Haf. Craffwyd hefyd ar fap darpariaeth y plant ADY a hefyd y cynnydd oedd yr ysgol wedi ei wneud yn erbyn blaenoriaethau'r CDY. Adroddodd M Sarnacki ar ei ymweliad a'r ysgol i arsylwi mathemateg drawsgwricwlaidd.

12/12/24 *Members were appointed to the sub-committees. Modifications to plans for the toilets for the new Cylch Meithrin were also discussed. The difficulties following the departure of 3 members of staff at the end of the Summer term were discussed. The ALN children's provision map was also scrutinized and also the progress the school had made against the priorities of the SDP. M Sarnacki reported a walk around the school looking at cross-curricular mathematics.*

13/3/25 Trafodwyd yr angen i gael amcan brisiau ar gyfer ystafell newydd y Cylch Meithrin. Adroddwyd fod Mrs Heather Hughes wedi gadael. Trafodwyd pwysigrwydd atgoffa teuluoedd yn gyson o'r angen i adael yr ysgol wybod am absenoldeb plentyn.
Dymunodd y llywodraethwyr yn dda i'r grŵp Cerddoriaeth Creadigol a oedd am gystadlu yn yr Eisteddfod ym Mhorth Talbot.
Dadansoddwyd canlyniadau Profion Cenedlaethol.

13/3/25
*The need to get estimates for the Cylch Meithrin's new room was discussed. It was reported that Mrs Heather Hughes had left. The importance of reminding families of the need to let the school know the reason for a child's absence was discussed.*
*The governors wished the Creative Music group who were to compete in the Eisteddfod in Morth Talbot well.*

1/5/25 Roedd Rhys Myrddin wedi rhoi amcan bris o £20,000 ar gyfer y gwaith o ail-lunio ystafell bl5 a 6 ar gyfer y Cylch Meithrin. Trafodwyd dadansoddiad o'r holiadur i blant a'r cynnydd yn erbyn blaenoriaethau'r CDY. Dadansoddwyd canlyniadau Profion Cenedlaethol a chymharu'r sgoriau yn erbyn profion Hydref 2024.

1/5/26 *Rhys Myrddin had given an estimate of £20,000 for the work of redoing the year 5 and 6 room for the Cylch Meithrin. The analysis of the For children questionnaire and progress against the priorities of the SDP was discussed. The results of National Tests were analyzed and the scores compared against the October 2024 tests.*

# Presenoldeb | *Attendance* 2024 - 2025

Targed yr Ysgol yw 95%
*The School target is*

Y canran presenoldeb 87.2%
*The attendance percentages for*

Mae’r canrannau’n dal yn is na chyn y pandemig. Gan fod yr ysgol yn ysgol lai gall y canrannau gael eu heffeithio'n hawdd pan fydd nifer bychan yn absennol.

*Percentages are still lower than before the pandemic As the school is a smaller school the percentages can be easily affected detrimentally when even small numbers being absent.*

# Newidiadau i lawlyfr yr ysgol ers y cyfarfod blynyddol diwethaf | *Changes to the school prospectus since the last meeting*

Mae llawlyfr yr ysgol wedi ei adolygu ac mae copïau ar gael yn yr ysgol ac ar y wefan.
*The School Prospectus has been modified and updated and copies are available on request or on the website.*

# Y cwricwlwm, trefniadaeth addysgu a dulliau dysgu’r ysgol | *The curriculum and organisation of education and teaching methods at the school*

Cyflwynwyd y Cwricwlwm newydd i Gymru ym mis Medi 2022 ac mae’r ysgol wedi bod yn paratoi i’w roi ar waith. Bydd mwy o bwyslais ar baratoi'r plant ar gyfer byd gwahanol sy'n gofyn am set wahanol o sgiliau nag yn y gorffennol. Mae'r llywodraeth yn gobeithio y bydd yr ysgolion yn gallu dylunio cwricwlwm gyda mewnbwn gan y plant a'u rhieni gan gynhyrchu dysgwyr Uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu gydol eu hoes. Cyfranwyr mentrus, creadigol, yn barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith. Dinasyddion moesegol, gwybodus Cymru a'r byd. Unigolion iach, hyderus, sy’n barod i fyw bywydau boddhaus fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas

Bydd y cwricwlwm yn datblygu’r sgiliau hyn yn y meysydd dysgu a phrofiad canlynol

- Celfyddydau Mynegiannol.
- Iechyd a Lles.
- Dyniaethau
- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu.
- Mathemateg a Rhifedd.
- Gwyddoniaeth a Thechnoleg.

O dan y meysydd hyn bydd dilyniant yn cael ei asesu wrth i blant symud trwy eu taith ddysgu Gall pob plentyn symud ymlaen ar gyflymder gwahanol neu gymryd llwybr gwahanol i gyrraedd y cam nesaf. Mae'r camau cynnydd wedi'u plotio fel a ganlyn:

- Cam Cynnydd 1 - 3-5 oed
- Cam Cynnydd 2 - 5-8 oed
- Cam Cynnydd 3 - 8-11 oed
- Cam Cynnydd 4 - 11-14 oed
- Cam Cynnydd 5 - 14-16 oed

Fodd bynnag, gall plant fod yn unrhyw le ar y llinell ddilyniant. Mae'r camau uchod yn ganllawiau mwy bras ynghylch ble disgwylir i blant o grwpiau oedran penodol fod.

*The new Curriculum for Wales was introduced in September 2022 and the school has been preparing to implement it. There will be more emphasis on preparing the children for a different world which requires a different set of skills than previous times. The government hopes that the schools will be able to design a curriculum with input from the children and their parents producing Ambitious, capable learners ready to learn throughout their lives. Enterprising, creative contributors, ready to play a full part in life and work. Ethical, informed citizens of Wales and the world. Healthy, confident individuals, ready to lead fulfilling lives as valued members of society.*

*The curriculum will develop these skills in the following areas of learning and experience.*

- *Expressive Arts.*
- *Health and Well-being.*
- *Humanities.*
- *Languages, Literacy and Communication.*
- *Mathematics and Numeracy.*
- *Science and Technology.*

*Under these areas progression will be assessed as children move through their learning journey Each child may progress at a different rate or take a different path to get to the next stage. The progression steps are plotted as follows:*

- *Progression Step 1 - age 3-5*
- *Progression Step 2 - age 5-8*
- *Progression Step 3 - age 8-11*
- *Progression Step 4 - age 11-14*
- *Progression Step 5 - age 14-16*

*Children can be anywhere on the progression line, though. The above steps are more rough guides as to where children of certain age groups are expected to be.*

# Addysg Grefyddol | *Religious Education*

Mae cyfeiriadur addysg grefyddol Gatholig ar wahân o'r enw "To know you more clearly " newydd gael ei gwblhau a'i gymeradwyo gan Esgobion Cymru a Lloegr. Disgwylir y bydd pob ysgol yn defnyddio'r cyfeiriadur fel sail i'w haddysgu erbyn 2026.

*A separate Catholic R.E directory called "To know you more clearly" has just been finalised and approved by the Bishops of England and Wales. It is expected that all schools will be using the directory as a basis for their teaching by 2026.*

# Anghenion dysgu ychwanegol | *Special educational needs*

Prif nod y ddarpariaeth yw cynnig cyfle i bob plentyn ddatblygu hyd at eithaf ei botensial. Cynigir cymorth i blant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol o fewn sefyllfa dosbarth ac mae cynllunio unigol ar eu cyfer. Ymgynghorir yn gyson gyda'r A.Ll. am anghenion unigolMae rhai plant yn cael sylw unigol.

*The main aim of the policy is to ensure that each child has the opportunity to develop to his / her full potential. Attention is offered to children with additional learning needs within the classroom and individual plans are prepared for them. The school is in regular contact with the LA to discuss the individual needs of the children. Individual attention is given to some children.*

# Amddiffyn plant | *Child protection*

Swyddog Amddiffyn plant yr ysgol yw Eirian Bradley Roberts (Pennaeth) yn ei absenoldebSian Jones yw'r swyddog. Y Llywodraethwr sydd â chyfrifoldeb Amddiffyn Plant yw Julie Andrews

*The school's child protection officer is Eirian Bradley-Roberts (Headteacher) in her absence the officer is Sian Jones. The governor with responsibility for child protection is Julie Andrews.*

# Diogelwch | *Health and safety*

Mae'r plant dan oruchwyliaeth barhaus yn yr ysgol.Cynhelir archwiliad i nodi peryglon ac mae'r staff yn ymwybodol o'r drefn o drafod unrhyw bryderon ynghylch iechyd a diogelwch pawb yn yr ysgol. Paratoir asesiadau risg yn ôl y galw ac ymgynghorir gyda'r Awdurdod yn ôl y gofyn. Mae pob gwaith yn cael ei drefnu trwy Gyngor Gwynedd. Mrs Bradley-Roberts yw'r person dynodedig sy'n gyfrifol am iechyd a diogelwch yn yr ysgol.

*The children are always under constant supervision in the school. An inspection is held where potential pitfalls are identified and the staff are aware that any worries about the health and safety of any person in the school are to be discussed with the headteacher. Risk assessments are prepared when needed and the Local Education Authority is consulted when necessary. All building work is conducted through the Local Education Authority. Mrs Bradley-Roberts is the designated person responsible for health and safety in the school.*

# Chwaraeon yr ysgol | *School sports*

Gweler isod | *See below*

**CYSTADLU / *COMPETING***

Pelrwyd / *Netball*
Peldroed / *Football*
Nofio / *Swimming*
Athletau / *Athletics*

**CYMRYD RHAN / PARTICIPATING**

Pel rwyd / *Netball*
Pel droed / *Football*



# Cysylltiadau â’r gymuned | *Community links*



Yn ystod y Pandemig doedd y plant ddim yn cael y cyfleoedd arferol i gystadlu a chymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol ond erbyn rwan mae rhan fwyaf o bethau’n ail gychwyn. . Un o’r digwyddiadau mwyaf nodedig oedd penblwydd yr ysgol yn 110 oed. Cymerodd yr Esgobaeth, y Plwyf, cyn-ddisgyblion a’r gymuned leol ran yn y dathliadau.

Isod mae rhestr o ddigwyddiadau eraill:

- Cymryd rhan yn y mwyafrif o ddigwyddiadau sy'n cael ei drefnu gan yr Urdd. e.e Eisteddfodau, Jambori,
- Y plwyf.-Offeren- Mae’r Offeiriad wedi newid amser yr Offeren ar ddydd Gwener i wneud hi’n haws i’r ysgol ymuno.
- Te i'r Plwyfolion a chymdogion yr ysgol .Mae grwp Twtil wedi defnyddio’r ysgol fel man I gyfarfod.
- Canu carolau ar sgwar Twtil- Wedi ei drefnu gan grwp Cymunedol Twtil.
- Ymweliadau addysgol -Dysgu am yr ardal leol. Teithiau gerdded o gwmpas y dre, dysgu am ardaloedd gwahanol a’r castell.
- Trip diwedd tymor-Gelli Gyffwrdd
- Digwyddiadau cymunedol yn y dref.-Goleuo'r goeden, Gorymdaith Dewi Sant.
- Ymweliadau cymunedol- Canolfan Bryn Seiont, Morrisons a Tesco.Ysgol Syr Hugh Owen
- Ysgolion Gatholig- Offeren i blant bl6, Pererindod I Dreffynnon.
- *M*ae swyddogion cyswllt yr heddlu wedi bod i mewn i'r ysgol yn rheolaidd.



*During the Pandemic the children did not have the usual opportunities to compete and take part in community activities but by now most of the activities have restarted. One of the most notable events was the school's 110th birthday. The Diocese, Parish, former pupils and the local community took part in the celebrations.*

*Below is a list of other events:*

- *The school takes part in most of the activities arranged by the Urdd e.g The Eisteddfod, Jamboree*
- *The parish.-Mass- The Priest has changed the time of Mass on Fridays to make it easier for the school to join the Parish*
- *Tea for parishoners and neighbours. The Twtil's group has used the school as a meeting place.*
- *Carol singing on Twtil square organised by the Twtil Community group.*
- *Educational trips- Learnt about the local area. Walking tours around the town, learning about different areas and the castle*
- *End of term trip-Greenwood centre.*
- *Community events in town- Lighting the Xmas tree, Saint David's parade.*
- *Community visits-Bron Seiont Dementia home, Morrisons, Tesco, Ysgol Syr Hugh Owen.*
- *Catholic schools-Sports days, Year 6 mass, pilgrimage to Holywell.*
- *Police liaison officers have visited the school regularly.*

# Ysgolion Uwchradd | *Secondary Schools*

Mae’r rhan fwyaf o blant yr ysgol yn mynd i Ysgol Syr Hugh Owen ond mae nifer hefyd yn mynd i Friars, Brynrefail ac Ysgol Tryfan.

*Most children from the school go to Ysgol Syr Hugh Owen but pupils from the school also go to Friars, Brynrefail and Tryfan School.*

# Strategaethau ysgol | *School strategies*

Mae Fframwaith Cenedlaethol yn bodoli ar gyfer Llythrennedd a Rhifedd ac yn rhan o’r Cwricwlwm newydd. Mae'r ysgol yn ymgorffori'r Fframwaith yng ngweithgareddau'r ysgol o ddydd i ddydd.

*A National Framework exists for Literacy and Numeracy and is part of the new Welsh Curriculum.The school incorporates the Framework into the day to day activities of the school.*

# Trefniadau ar gyfer yr anabl | *Arrangements for disabled access*

Ein nod fel ysgol yw gwneud yr hyn a allwn i sicrhau fod gan unrhyw blentyn sy’n dioddef o anabledd, boed yn anabledd corfforol, meddyliol neu anhawster dysgu, fynediad llawn i addysg yn ysgol Santes Helen. Mae Cynllun Hygyrchedd wedi ei baratoi ac mae ar gael yn yr ysgol ac ar y wefan..

*Our aim is to do our utmost to ensure that pupils who suffer from any disability - physical, mental or learning disabilities have a full access to education in Ysgol Santes Helen. An Access Plan has been prepared by the school and is available on the school website.*

# Darpariaeth toiledau | *Provision of toilet facilities*

Mae’r tai bach yn cael eu glanhau yn ddyddiol. Delir gydag unrhyw broblemau cynnal a chadw yn syth.

*The toilets are cleaned on a regular basis. Any maintenance issues are dealt with immediately.*

# Bwyta’n iach | *Healthy eating*

Er mwyn hyrwyddo bwyta’n iach mae’r ysgol wedi ymgymryd â nifer o weithgareddau yn ystod y flwyddyn. Ymysg rhain ydi ymrwymiad i gynllun Ysgolion Iach Gwynedd.. Newidiodd yr ysgol ei bolisi ar fyrbrydau yn ystod amser egwyl a gofynnwyd i blant ddod a ffrwyth yn unig ar yr adegau yma.  Mae pob plentyn yn yr ysgol yn gymwys I dderbyn llefrith a chinio am ddim.


*So as to promote healthy eating at the school we have participated in a number of activities during the year.The school continues in its commitment to the Gwynedd Healthy Schools Initiative The school changed its policy on break time snacks and asked children to bring fruit only to eat at this time. All children in the school are eligible to receive milk and a school lunch free on a daily basis.*

# Costau llywodraethwyr | *Governor’s costs*

Nid oedd costau ynghlwm â’r bwrdd Llywodraethwyr.
*There were no costs involving the Governors.*

# Cyllid | *Finance*

Amgaeir taflenni yn manylu ar gyllid yr ysgol.
*Leaflets are enclosed giving details of the school's finances.*



# Cyllid | *Finance*

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Budget** | | | | | |
| | | | | | |
| **Financial Statement: 2025/26** | | | | | |
| | | | | | |
| LEA School Budget Allocation | | | | £276,545.25 | |
| Other Income | | | | £31,431.00 | |
| | | | | £307,976.25 | |
| | | | | | |
| Staffing Costs | | | | £243,593.00 | 75.83% |
| Premesis Costs | | | | £30,102.00 | 9.37% |
| Supplies | | | | £7,000.00 | 2.18% |
| External/LA costs | | | | £40,558.00 | 12.62% |
| | | | | £321,253.00 | |
| | | | | | |
| Annual surplus/-defict | | | | -£13,276.75 | |
| Previous Years balance surplus/-defict | | | | £18,442.00 | |
| Surplus/-defict c/f | | | | £5,165.25 | |
| | | | | | |

YSGOL SANTES HELEN

CÂR DY GYMYDOG